# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-05-08)

**Dyddiad: 17 Ebrill 2008**
**Amser: 13:10 - 15:15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgor

Claire Morris, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Iain Walsh, Cyfarwyddwr, Is-adran Polisi yr Economi a'r Farchnad Lafur, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Linda Badman, Cyfarwyddwr, Y Ganolfan Byd Gwaith - Cymru
Hayley Dunne, Swyddog Datblygu Busnes, Chwarae Teg
Dr Brec'hed Piette, Cyfarwyddwr, Prosiect Cael Gwaith, Addysg a Chyngor mewn Ardaloedd Gwledig, a Phennaeth yr Ysgol Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Bangor
Ian Thomas, Swyddog Datblygu Cenedlaethol, Canolfan Cyngor ar Bopeth Cymru
Jonathan Edwards, Swyddog Materion Cyhoeddus, Canolfan Cyngor ar Bopeth Cymru
Suzanne Gainard, Canolfan Cyngor ar Bopeth, Caerfyrddin
Simon Harris, Prif Weithredwr, Canolfan Cydweithredol Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig: sesiwn dystiolaeth ar yr economaidd anweithgar

2.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i Iain Walsh o'r Adran Gwaith a Phensiynau, Linda Badman o'r Ganolfan Byd Gwaith - Cymru, Hayley Dunne o Chwarae Teg, a Dr Brec'hed Piette o Brifysgol Bangor, a gofynnodd iddynt siarad am yr hyn yr oeddent wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n cwestiynu'r tystion.

2.2 Cytunodd Linda Badman i roi manylion y lleoliadau gwledig lle'r oedd y Ganolfan Byd Gwaith - Cymru yn darparu gwasanaethau cymunedol penodol a'r partneriaid yr oedd yn cydweithio â hwy i ddarparu'r cymorth hwn.

2.3 Cytunodd Hayley Dunne i ddarparu gwybodaeth am nifer y menywod sydd mewn gwaith ar hyn o bryd o gymharu â'r sefyllfa 15 mlynedd yn ôl, pan ffurfiwyd Chwarae Teg, ac i ddarparu gwybodaeth bellach ar waith ymchwil a phrojectau'r sefydliad. Gofynnwyd hefyd i Dr Brec'hed Piette roi mwy o wybodaeth ar y project GWLAd.

### Eitem 3: Ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig: sesiwn dystiolaeth yr economaidd weithgar

3.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i Ian Thomas a Jonathan Edwards o Ganolfan Cyngor ar Bopeth Cymru, Suzanne Gainard o Ganolfan Cyngor ar Bopeth Sir Gaerfyrddin, a Simon Harris o Ganolfan Cydweithredol Cymru, a gofynnodd iddynt siarad am yr hyn yr oeddent wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n cwestiynu'r tystion.

3.2 Gofynnwyd i Ian Thomas ddarparu gwybodaeth ar y gost o redeg car mewn ardal wledig er mwyn cyrraedd y gweithle.

3.3 Cytunodd Simon Harris i ddarparu enghreifftiau o'r gwahanol fentrau cydweithredol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd.